CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 1272(Cy.71)

# PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan asiantaethau mabwysiadu a phaneli mabwysiadu yng Nghymru mewn perthynas ag asesu person sy'n dymuno mabwysiadu plentyn o wledydd tramor a'i gymeradwyo. Mae'r gweithdrefnau asesu a chymeradwyo yr un fath â'r rhai a nodir yn Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983 mewn perthynas â darpar fabwysiadydd sy'n dymuno mabwysiadu plentyn sy'n preswylio fel arfer yn Ynysoedd Prydain.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru ddarparu gwybodaeth benodedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru pan fyddant yn penderfynu cymeradwyo darpar fabwysiadydd plentyn o wledydd tramor yn un sy'n addas i fod yn rhiant sy'n mabwysiadu.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No.1272(W.71)

# CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

## The Adoption of Children from Overseas (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

These Regulations specify the procedure to be followed by adoption agencies and adoption panels in Wales in relation to the assessment and approval of a person wishing to adopt a child from overseas. The assessment and approval procedures are the same as those set out in the Adoption Agencies Regulations 1983 in relation to a prospective adopter who wishes to adopt a child habitually resident in the British Islands.

The Regulations also require adoption agencies in Wales to provide specified information to the National Assembly for Wales where they decide to approve a prospective adopter of a child from overseas as suitable to be an adoptive parent.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 1272(Cy.71)

# PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *29 Mawrth 2001* |
| *Yn dod i rym* | *30 Ebrill 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 9(2) a (3) o Ddeddf Mabwysiadu 1976 (**a**) ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru (**b**) a phob pŵer arall sy'n galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y cyswllt hwnnw:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 30 Ebrill 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "darpar fabwysiadydd" ("prospective adopter") yw person sy'n preswylio fel arfer yn Ynysoedd Prydain(**c**) sydd, ar unrhyw adeg, yn dod â phlentyn sy'n preswylio fel arfer y tu allan i'r ynysoedd hynny i mewn i'r Deyrnas Unedig er mwyn ei fabwysiadu (heblaw mabwysiadu gan riant, gwarcheidwad neu berthynas);

(a) 1976 p.36 ("Deddf 1976"). Mae swyddogaethau'r Gwasanaeth Mabwysiadu sydd wedi'u nodi yn adran 1 o Ddeddf 1976, y mae'r pwerau o dan adran 9(2) a (3) o Ddeddf 1976 yn cael eu harfer mewn perthynas â hwy, wedi'u diwygio gan adran 9 o Ddeddf Mabwysiadu (Agweddau Rhyngwladol) 1999 (p.18)("Deddf 1999"). Deuir ag adran 9 o Ddeddf 1999 i rym ar 30 Ebrill 2001 gan O.S. 2001/1279.

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 9(2) a (3) o Ddeddf 1976 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(c) Drwy gyfeirio at adran 5 o Ddeddf Dehongli 1978 (p.30) ac Atodlen 1 iddi, ystyr "Ynysoedd Prydain" yw Cymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No.1272(W.71)

# CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

## The Adoption of Children from Overseas (Wales) Regulations 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *29th March 2001* |
| *Coming into force* | *30th April 2001* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 9(2) and (3) of the Adoption Act 1976 (**a**) and now exercisable by it in relation to Wales (**b**) and of all other powers enabling it in that behalf:

**Citation, commencement and application**

**1.**-(1) These Regulations may be cited as the Adoption of Children from Overseas (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 30th April 2001.

(2) These Regulations apply to Wales.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations -

"the 1983 Regulations" ( "Rheoliadau 1983" ) means the Adoption Agencies Regulations 1983(**c**);

(a) 1976 c.36 ("the 1976 Act"). The Adoption Service functions set out in section 1 of the 1976 Act, in relation to which the powers under section 9(2) and (3) of the 1976 Act are exercised, are amended by section 9 of the Adoption (Intercountry Aspects) Act 1999 (c.18)("the 1999 Act"). Section 9 of the 1999 Act is brought into force on 30th April 2001 by S.I. 2001/1279.

(b) The functions of the Secretary of State under sections 9(2) and (3) of the 1976 Act were transferred to the National Assembly for Wales by article 2 and Schedule 1 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672)

(c) S.I. 1983/1964, as amended by S.I. 1997/649 and S.I. 1997/2308.

mae i "panel mabwysiadu" yr un ystyr ag "adoption panel" yn Rheoliadau 1983;

ystyr "Rheoliadau 1983" ("the 1983 Regulations") yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983(**a**);

ystyr "Rheoliadau 2001" ("the 2001 Regulations") yw Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor 2001(**b**).

**Dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu a swyddogaethau panel mabwysiadu mewn perthynas â darpar fabwysiadydd**

**3**.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys -

(a) i awdurdod lleol(**c**) y mae darpar fabwysiadydd wedi cyflwyno cais iddo am gael ei asesu yn unol â rheoliad 3(2)(a) o Reoliadau 2001; a

(b) i gymdeithas fabwysiadu a gymeradwywyd(**ch**) sydd wedi cytuno i asesu darpar fabwysiadydd sydd wedi cyflwyno cais iddi yn unol â'r rheoliad hwnnw.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu(**d**) asesu darpar fabwysiadydd yn unol â rheoliadau 8 (dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu mewn perthynas â darpar fabwysiadydd)(**dd**) ac 8A (collfarnau troseddol darpar fabwysiadydd)(**e**) o Reoliadau 1983.

(3) Rhaid i banel mabwysiadu y cyfeirir achos darpar fabwysiadydd ato ystyried yr achos a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu sy'n cyfeirio'r achos ynghylch a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fod yn rhiant sy'n mabwysiadu, yn unol â rheoliad 10 (swyddogaethau panel mabwysiadu)(**f**) o Reoliadau 1983.

(4) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu -

(a) gwneud penderfyniad ynghylch addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fod yn rhiant sy'n mabwysiadu a hysbysu'r darpar fabwysiadydd

(a) O.S. 1983/1964, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/649 ac O.S. 1997/2308.

(b) O.S. 2001/1251.

(c) Mae i "awdurdod lleol" yr un ystyr ag i "local authority" yn adran 72(1) o Ddeddf 1976.

(ch) Mae i "cymdeithas fabwysiadu a gymeradwywyd" yr un ystyr ag i "approved adoption society" yn adran 72(1) o Ddeddf 1976.

(d) Mae i "asiantaeth fabwysiadu" yr un ystyr ag i "adoption agency" yn adran 1(4) o Ddeddf 1976, sef awdurdod lleol neu gymdeithas fabwysiadu a gymeradwywyd.

(dd) Diwygiwyd rheoliad 8 gan O.S. 1997/2308.

(e) Mewnosodwyd rheoliad 8A gan O.S. 1997/2308.

(f) Diwygiwyd rheoliad 10 gan O.S. 1997/649.

"the 2001 Regulations" ("Rheoliadau 2001") means the Adoption of Children from Overseas Regulations 2001(**a**);

"adoption panel" ("panel mabwysiadu") has the same meaning as in the 1983 Regulations;

"prospective adopter" ("darpar fabwysiadydd") means a person habitually resident in the British Islands(**b**) who at any time brings into the United Kingdom for the purposes of adoption (other than adoption by a parent, guardian or relative) a child who is habitually resident outside those islands.

**Duties of an adoption agency and adoption panel functions in respect of a prospective adopter**

**3.** -(1) This regulation applies to -

(a) a local authority(**c**) to which a prospective adopter has applied for assessment in accordance with regulation 3(2)(a) of the 2001 Regulations; and

(b) an approved adoption society(**d**) which has agreed to assess a prospective adopter who has applied to it in accordance with that regulation.

(2) The adoption agency(**e**) shall assess a prospective adopter in accordance with regulations 8 (adoption agency's duties in respect of a prospective adopter)(**f**) and 8A (criminal convictions of a prospective adopter)(**g**) of the 1983 Regulations.

(3) An adoption panel to which the case of a prospective adopter is referred shall consider the case and make a recommendation to the referring adoption agency as to whether the prospective adopter is suitable to be an adoptive parent, in accordance with regulation 10 (adoption panel functions) (**h**) of the 1983 Regulations.

(4) The adoption agency shall -

(a) make a decision as to the suitability of the prospective adopter to be an adoptive parent and notify the prospective adopter of the

(a) S.I. 2001/ 1251.

(b) By reference to section 5 of and Schedule 1 to the Interpretation Act 1978 (c.30), "British Islands" means Wales, England, Scotland, Northern Ireland, the Channel Islands and the Isle of Man.

(c) See section 72(1) of the 1976 Act for the definition of "local authority" ("awdurdod lleol").

(d) See section 72(1) of the 1976 Act for the definition of "approved adoption society" ("cymdeithas fabwysiadu a gymeradwywyd").

(e) By virtue of section 1(4) of the 1976 Act, "adoption agency" ("asiantaeth fabwysiadu") means a local authority or an approved adoption society.

(f) Regulation 8 was amended by S.I. 1997/2308.

(g) Regulation 8A was inserted by S.I. 1997/2308.

(h) Regulation 10 was amended by S.I. 1997/649.

am y penderfyniad, yn unol â rheoliad 11A (penderfyniadau a hysbysiadau asiantaethau mabwysiadu - darpar fabwysiadwyr)(**a**) o Reoliadau 1983; a

(b) pan fydd yr asiantaeth wedi penderfynu cymeradwyo'r darpar fabwysiadydd yn un sy'n addas i fod yn rhiant sy'n mabwysiadu, hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ysgrifenedig am y penderfyniad hwnnw a darparu iddo -

(i) yr holl wybodaeth a ystyriwyd gan y panel mabwysiadu cyn gwneud argymhelliad i'r asiantaeth a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fod yn rhiant sy'n mabwysiadu; a

(ii) unrhyw wybodaeth arall mewn perthynas ag achos y darpar fabwysiadydd y bydd arno ei hangen.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**).

29 Mawrth 2001

decision, in accordance with regulation 11A (adoption agency decisions and notifications - prospective adopters)(**a**) of the 1983 Regulations; and

(b) where the agency has decided to approve the prospective adopter as suitable to be an adoptive parent, notify the National Assembly for Wales in writing of that decision and provide to it -

(i) all information considered by the adoption panel before making a recommendation to the agency as to whether the prospective adopter is suitable to be an adoptive parent; and

(ii) such other information relating to the prospective adopter's case as it may require.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**).

29th March 2001

*Dafydd Elis Thomas*

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

The Presiding Officer of the National Assembly for Wales

(a) Mewnosodwyd rheoliad 11A gan O.S. 1997/649 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 1997/2308.

(b) 1998 p.38.

(a) Regulation 11A was inserted by S.I. 1997/649 and amended by S.I. 1997/2308.

(b) 1998 c.38.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 1272 (Cy.71)

# PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU

Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No.1272 (W.71)

# CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Adoption of Children from Overseas (Wales) Regulations 2001

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090184-3

9 780110 901848

**£2.00**

W/257/04/01 ON